**Cyngor Sir y Fflint - “Arwain y Gwaith o Gyflawni ein Blaenoriaethau Allweddol”**

**(1) Cwsmeriaid Digidol a Gwytnwch Cymunedol (2 swydd)**
- Rheolwr Cyflawni Rhaglen
- Swyddog Trawsnewid Cwsmeriaid

**(2) Cynhyrchu Incwm (1 swydd)**
- Rheolwr Cynhyrchu Incwm a Marchnata

Mae Cyngor Sir y Fflint yn Gyngor effeithiol ac effeithlon sydd â hanes aruthrol o arwain prif raglenni o newid er mwyn cynnal a gwella gwasanaethau allweddol er budd y gymuned, e.e. Datblygu Modelau Cyflenwi Amgen, Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Rydym yn flaengar, yn gadarnhaol ynghylch potensial, wedi datblygu ein harbenigedd yn barhaus ac wedi ymddwyn gydag angerdd a gwytnwch i gyflawni ein llwyddiant. Rydym bellach yn harneisio y gallu sefydliadol yma ac yn buddsoddi ar gyfer y dyfodol i symud ymlaen â thrawsnewid ein gwasanaethau i'n cwsmeriaid digidol, er mwyn ysbrydoli ein cymuned i fod yn fwy gwydn ac i wneud y mwyaf o gynhyrchu incwm. Rydym angen tri unigolyn talentog i arwain y gwaith o gyflawni'r prif flaenoriaethau yma i ddod â'u profiad o gyflawni, egni a brwdfrydedd ynghyd ag arbenigedd i fod yn chwaraewyr allweddol yn ein pennod nesaf o newid a chyflawniad. Mae'r rhain yn swyddi pwysig sydd yn adrodd i'r Prif Swyddog Rhaglenni Strategol ac maent yn weledol iawn gan ddarparu cyfleoedd sylweddol i gael effaith strategol, ymwneud â phob rhan o'r Cyngor a chydweithio gyda'n partneriaid.

**Rheolwr Cyflawni Rhaglen:**
**Cwsmeriaid Digidol a Gwytnwch Cymunedol (Cyfnod Penodol am 3 blynedd)**

Y swydd hon sydd yn gyfrifol am reoli'r rhaglen i weithredu tri phrif faes o waith - Strategaeth Digidol, Strategaeth Cwsmeriaid a Fframwaith Gwytnwch Cymunedol. Felly rydym yn chwilio am gyfuniad arbennig o wybodaeth a sgiliau sydd yn ymwneud ag arweinyddiaeth a thechnoleg ddigidol i wella gwasanaethau i gwsmeriaid yn ogystal â gweithio gyda chymunedau i gynyddu eu sgiliau a gwytnwch. Gyda phrofiad helaeth a sgil o reoli Rhaglenni a Phrosiectau, byddwch eisoes wedi dangos eich sgiliau arweinyddiaeth sy'n gweddnewid a byddwch yn brofiadol wrth weithredu modelau gwasanaeth newydd. Byddwch yn defnyddio eich sgiliau cyfathrebu a dylanwadu i negodi'n effeithiol a meithrin perthnasau gweithio ar draws ffiniau. Mae gallu meddwl yn ddadansoddol gyda'r gallu i ddadansoddi a datrys problemau cymhleth yn hanfodol i fod yn llwyddiannus yn y swydd hon.

**Rheolwr Cynhyrchu Incwm a Marchnata (Cyfnod Penodol 2 flynedd)**

Bydd y swydd hon yn arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu cynllun 3 blynedd sydd yn ategu golau strategol y Cyngor, a fabwysiadwyd yn ddiweddar fel ei Strategaeth Incwm. Bydd gwneud y mwyaf o incwm drwy ffioedd a thaliadau a marchnata ein gwasanaethau cynhyrchu incwm i'r sector cyhoeddus a phreifat yn allweddol. Bydd gennych lwyddiant blaenorol o weithredu prosiectau cynhyrchu incwm a phrofiad helaeth o ddatblygu ymgyrchoedd marchnata creadigol ac integredig a all gipio dychymyg er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o frand y Cyngor. Byddwch yn unigolyn penderfynol gan ganolbwyntio ar ganlyniadau a chadw at gyflawni targedau incwm. Mae meddwl strategol a phrofiad o greu tystiolaeth i wella ceisiadau yn hanfodol ac fe ddaw eich sgiliau cyfathrebu yn amlwg pan fyddwch chi'n negodi a dylanwadu.

**Oriau** - Llawn Amser - 37 awr yr wythnos
**Cyflog** – Graddfa K £40,858 - £43,757 y flwyddyn
**Lleoliad** – Yr Wyddgrug, Sir y Fflint

Rydym yn credu y gall y ddwy swydd yma roi cyfle heb ei debyg i wneud cyfraniad arwyddocaol i'n cymunedau ac i fod yn rhan o'n taith drawsnewidiol ac yn ystod y daith hon gallwch barhau i wella a mireinio eich set unigryw o sgiliau a phrofiad. Rydym yn cynnig ffyrdd hyblyg o weithio.

**Dyddiad cau ar gyfer y Cais:** Dydd Llun 4 Mehefin
**Dyddiad Asesu i Ddewis:** Dydd Gwener 15 Mehefin
I gael sgwrs anffurfiol, cysylltwch ag:
Ian Bancroft - Prif Swyddog ar gyfer Rhaglenni Strategol
Ffôn: 01352 704180 neu e-bost ian.bancroft@flintshire.gov.uk

**Swyddog Trawsnewid Cwsmeriaid (Cyfnod Sefydlog 3 blynedd)**

Gan weithio yn rhan o'r tîm Gwasanaethau i Gwsmeriaid sydd yn arwain newidiadau allweddol yn eu gwaith, bydd y swydd hon yn gyswllt rhwng Rhaglen Cyflawni Cwsmeriaid Digidol a newid i arferion gwasanaeth i gwsmeriaid. Yn benodol byddwch yn arwain y gwaith o newid cynnwys y wybodaeth sydd ar y we er mwyn iddo fod yn fwy hygyrch ac yn lleihau'r galw am gyswllt dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Gan weithio gyda thimau gwasanaeth byddwch yn sicrhau unwaith y mae ymholiadau digidol yn cael eu derbyn, bydd y prosesau cywir ar waith i sicrhau y gellir ymdrin â'r ymholiad yn ddigidol o'r dechrau i'r diwedd. Bydd hyn yn golygu bod angen i chi fod yn brofiadol wrth gyflawni gwasanaeth i gwsmeriaid gan ddefnyddio eich sgiliau digidol yn hyderus yn ogystal ag arwain gwaith gyda thimau i weithredu newidiadau a gwelliannau i ddylunio gwasanaeth i gwsmeriaid.

**Oriau** - Llawn Amser - 37 awr yr wythnos
**Cyflog** – Graddfa H £30,757 - £33,136 y flwyddyn
**Lleoliad** – Yr Wyddgrug, Sir y Fflint

**Dyddiad cau ar gyfer y Cais:** Dydd Llun 4 Mehefin
**Dyddiad Asesu i Ddewis:** Dydd Llun 18 Mehefin
I gael sgwrs anffurfiol, cysylltwch â:
Rebecca Jones - Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chofrestru
Ffôn: 01352 702413 neu e-bost rebecca.jones@flintshire.gov.uk

Bydd trefniadau gweithio rhan-amser, rhannu swydd a threfniadau gweithio hyblyg yn cael eu hystyried.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn sgil bwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac mae wedi ymrwymo i gynyddu nifer y gweithwyr dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer unrhyw swydd gan ymgeiswyr sydd yn gallu gweithio yn Gymraeg a Saesneg. Byddwn hefyd yn cefnogi gweithwyr newydd a rhai sydd eisoes yn gweithio gyda ni sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella/datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Oherwydd nifer y ceisiadau a dderbynnir, nid ydym bob amser yn gallu cysylltu â phob ymgeisydd yn unigol, felly os nad ydych wedi clywed oddi wrthym o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiataol nad yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus.